“Ymegnïwch i fynd i mewn trwy’r drws cul, oherwydd rwy’n dweud wrthych y bydd llawer yn ceisio mynd i mewn ac yn methu.”
Luc 13:24

Dyma’r Arglwydd Iesu yn wynebu cwestiwn a daflwyd ato wrtho iddo fynd ar hyd y ffordd. Roedd y cwestiwn yn holi am rif y cadwedig, ac mae’r Arglwydd yn ateb gyda darlun o deyrnas Dduw fel plasty mawr, a’r angen i wneud yn siŵr ein bod wedi mynd i mewn cyn i’r drws gael ei gau.

Ymegnïwch!

Rhaid i mi ddweud fy mod yn hoff o’r cyfieithiad yma. Mae Mab Duw yn ein hannog i ddefnyddio’n holl egni i ddiogelu ein hiachawdwriaeth dragwyddol. Yn aml, fe ddefnyddiwn ein hegni i bob math o bethau ond ein perthynas â Duw. Mae’r Cynghorwr rhyfeddol yn dweud wrthym am ddefnyddio pob mymryn o’n hegni i fynd trwy’r drws i deyrnas Dduw.

Rai blynyddoedd yn ôl, agorodd siop fwyd newydd yng Nghaernarfon. Roedd ganddynt hysbyseb ymlaen llaw yn y papur lleol yn dweud bod y tri chwsmer cyntaf yn cael gwerth hanner canpunt o fwyd am ddim. Roedd y cwsmer cyntaf yn gwersylla tu allan i’r siop trwy’r nos, a hithau’n noson ddigon annifyr o Fawrth. Daeth y ddau nesaf yn blygeiniol i ymuno â’r wraig gyntaf. Roedd y wraig yna’n rhoi cymaint o werth ar fwyd i’w theulu nes ei bod yn fodlon gwneud y fath ymdrech â hynny.

Drws cul

Mae llawer o safleoedd mawr yn ein gwlad gyda mynedfa gymharol fach. Meddyliwch am gae rygbi neu bêl-droed. Er y gall miloedd fynd i mewn, rhaid mynd trwy giât dro gul. Weithiau, wrth fynd am dro yn y wlad, rhaid mynd trwy giât mochyn gul i gae digon eang a braf.

Gallwn ddweud dau beth am hyn: dim ond un drws sydd i deyrnas nefoedd – sef yr Arglwydd Iesu Grist, yr un a ddywedodd, **“Myfi yw’r Ffordd”**, a **“Myfi yw’r drws”**. Nid oes cyfryngwr arall rhwng Duw a dynion.

Adnabod Iesu, a chael ein hadnabod gan Iesu yw ystyr mynd trwy’r drws. Bydd rhai pobl yn tybio eu bod yn gadwedig am eu bod wedi clywed dysgeidiaeth Iesu, ac eraill yn fodlon am eu bod wedi bwyta ac yfed yn ei gwmni (adn. 26). Gallaf ddychmygu capelwyr ac eglwyswyr yng Nghymru yn gwneud yr un camgymeriad, gwaetha’r modd. Mae’n berygl gwirioneddol i bobl sydd wedi mynychu cyfarfodydd dybio eu bod yn iawn am eu bod yn gwybod

yr Efengyl, a hefyd wedi cael eu bedyddio a derbyn y cymun.

Mae'n ddrws cul yn yr ystyr bod ein perthynas â Duw yn fater personol. Er y gall llawer ddod at Grist mewn un oedfa, rhaid i bob un ddod yn bersonol at Dduw yn ei galon. Ni allwn ddod yn rhinwedd ffydd ein rhieni na'n cyfeillion.

Drws agored a fydd yn cau

Mae'n amlwg bod yr Arglwydd yn pwyso ar ei wrandawyr fod y drws cul yn mynd i gau (adn. 25). Cynnig dros dro yw cynnig yr Efengyl. **"Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos"** (Es. 55:6). Bydd marwolaeth neu ailddyfodiad yr Arglwydd yn golygu diwedd y cynnig, a chau y drws. Bryd hynny, fydd dim posib newid ein safle, bydd *'drws trugaredd'* wedi ei gau.

Tu mewn ynteu tu allan

Mae'r Arglwydd yn darlunio tu mewn i'r plasty fel lle diogel a braf ble mae'r teulu gyda'r Tad. Y tu allan, bydd lle ofnadwy, yn enwedig i'r rhai sydd wedi bod o gwmpas y drws ers amser hir. Mae Iesu'n cyfeirio'n arbennig at Iddewon anghrediniol a'i gwrthododd ef. Byddant yn synnu i weld Cenhedloedd y tu mewn yn ddiogel (trwy ffydd yn y Meseia Iesu).

Ond mae'r neges yr un mor berthnasol i grefyddwyr Cymru. Mor drist fyddai eu gweld nhw y tu allan i ddrws y deyrnas am na ddaethant i ffydd bersonol yn yr Arglwydd Iesu Grist. Byddant yn synnu a rhyfeddu i weld pobl na chafodd yr un cefndir gwych, crefyddol yn ddiogel y tu mewn, am eu bod wedi dod i brofiad o Grist wrth glywed ei Efengyl ogoneddus.

"Dewch", ac nid "Ewch"

Y gair mwyaf arswydus yn y darn hwn, ac yn Testament Newydd yw'r gair **"Ewch"** a fydd yn cael ei lefaru gan Grist wrth yr anghredinwyr yn y diwedd. Ni allaf ddychymygu unrhyw beth gwaeth na chael ein tynghedu i ddistryw yn uffern.

Braint pob cennad yr Efengyl yw dweud **"Dewch".** Dyna fy mraint i wrth ysgrifennu'r pwt bach yma. Dewch at Grist, beth bynnag eich pechod, eich cefndir, eich cyflwr, dewch – mae'r drws cul ar agor, dewch!